

# Sioned Erin Hughes

## Dwed ychydig wrthon ni am *Byw yn fy Nghroen*.


Mae'r llyfr yn gasgliad o 12 profiad gwahanol o gyflyrau iechyd – boed rheiny'n gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol. Daw'r cyfranogwyr o bob cwr o Gymru ac mae pob un yn berson ifanc hefyd.

### Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?

Dwi wedi mwynhau dod i gysylltiad efo'r cyfranogwyr i gyd achos roedden nhw'n bobl arbennig iawn. Ond ar yr ochr arall, yr her ddaeth i'r amlwg yn fuan iawn oedd sut i fynd o gwmpas defnyddio'r derminoleg gywir. Ar un llaw roedd gen i'r gair 'ddiodde' ac ar y llaw arall y gair 'ymdopi', ac i fi'n bersonol roeddwn yn diodde gyda fy iechyd ar y pryd a doeddwn i ddim yn ymdopi yn dda iawn o gwbl, ond mi fuase cyfranogwyr eraill, falle, yn dweud eu bod yn ymdopi a ddim yn diodde – felly gan fod 12 ohonom roedd yn anodd trio dod o hyd i'r derminoleg oedd yn addas i bawb. Mi wnes i golli cwsg dros hynny yn y dyddiau cynnar.

"Rydym yng nghwmni cyfrol bwysig ym maes llenyddiaeth i'r ifanc. Cyfrol gan bobl ifanc am bobl ifanc sy'n gwybod nad ydi bod yn ifanc yn fel i gyd."

Panel Beirniaid Tir na n-Og



## #CaruDarllen

### Dwed ychydig amdanat a sut ddoist ti'n awdur.

Roedd gen i wastad ddiddordeb mawr mewn geiriau ac ers o'n i'n hogan fach roedd gen i lyfr lle o'n i'n cofnodi

Hoff lyfrau dy blentyndod?

Ffios a Me Bach.

dyfyniadau ro'n i'n eu clywed mewn sgysiau bob dydd neu

mewn ffilmiau a llyfrau ac ati, ond wnaeth y gwir ddiddordeb o sgwennu ddim fy nharo tan i mi gychwyn yn y brifysgol a dilyn cwrs o wersi rhyddiaith

yn y flwyddyn gyntaf, ac ers hynny dwi ddim wedi stopio sgwennu achos dwi wedi gwirioni ar y grefft.

### Wyt ti'n hoffi creu i oedolion neu i blant a pam?

Dwi wedi bod yn sgwennu i oedolion yn y gorffennol ond hefyd dwi wedi bod yn sgwennu straeon i blant, felly mae gen i grŵp ar Facebook o'r

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Snapchat.

enw Llun a Stori. Y syniad ydi bod plant yn gyrru lluniau imi a dwi wedi bod yn llunio stori yn seiliedig ar eu lluniau nhw wedyn. Mae hyn wedi bod yn brofiad difyr ofnadwy a dwi wedi mwynhau mwy nag oeddwn wedi ei ragweld.

Hoff ffilm?

Bwyd môr.

Hoff ffilm?

Good Will Hunting.



Hoffle?

Trwyn Cilan a Moel Cefnamlwch.

### Ble wyt ti'n hoffi ysgrifennu?

Gan amlaf byddaf yn sgwennu allan ar y decing pan fydd yn haul braf felly byddaf yn gwirioni pan fydd yr haf yn dod ac y byddaf yn gallu gwneud pethau felly.

Beth sy'n dod â gwen?

Cŵn.

### Oes gyda ti gyngor ar gyfer darpar awduron?

Talu sylw at sgysiau, mynegiant yr wyneb ac osgo'r corff ac ati, ond y peth wnaeth fy helpu fi'n bersonol yn fwy na dim, ac sy'n dal i fy helpu hyd heddiw, ydi gwyllo llwyth o ffilmiau, a darllen mor aml ac eang ag y medra i. Fysech yn synnu gymaint rydych yn gallu dysgu o'r pethau yma; mae hyn wir yn eich galluogi chi i sgwennu ac yn eich rhoi ar ben ffordd i greu stwff eich hun wedyn.

Dewis o superpower?

Bod yn rhugl ym mhob iaith yn y byd.

Hoff swydd, heblaw awdur?

Gweithio efo plant sydd ag awtistiaeth.

*Byw yn Fy Nghroen*  
ISBN 9781784617134  
Y Lolfa £7.99